OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 3221

## Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn:

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw person a benodwyd gan awdurdod gorfodi o dan adran 67(3) o'r Ddeddf;

ystyr "awdurdod gorfodi" ("*enforcement authority*") yw pob cyngor sir a phob cyngor bwrdeistref sirol;

ystyr "darpariaeth Gymunedol benodedig" ("*specified Community provision*") yw darpariaeth yn Rheoliad 1829/2003 a bennir yng Ngholofn 1 ac a ddisgrifir yng Ngholofn 2 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn;

ystyr y "Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Amaethyddiaeth 1970(**1**);

ystyr "Rheoliad 1829/2003" ("*Regulation 1829/2003*") yw Rheoliad (EC) Rhif 1829/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig(**2**).

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) mae unrhyw gyfeiriad at erthygl â Rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn Rheoliad 1829/2003;

(b) mae unrhyw gyfeiriad at reoliad â Rhif , oni nodir i'r gwrthwyneb, yn gyfeiriad at y rheoliad sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn;

(c) mae unrhyw gyfeiriad at Atodlen yn gyfeiriad at yr Atodlen yn y Rheoliadau hyn oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall.

(3) Mae i ymadroddion eraill a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr un ystyr ag a roddir i'r ymadroddion Saesneg cyfatebol yn Rheoliad 1829/2003.

(**1**) 1970 p.40.
(**2**) OJ Rhif L268, 18.10.2003, t.1.